

Cynnydd Llywodraeth Cymru o ran lliniaru effeithiau newid hinsawdd:

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Newid Hinsawdd,
Amgylchedd a Materion Gwledig

Mai 2018



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/SeneddNHAMG

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 6565**

E-bost: **SeneddNHAMG@cynulliad.cymru**

Twitter: **[@SeneddNHAMG](https://twitter.com/SeneddNHAMG)**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynnydd Llywodraeth Cymru o ran lliniaru effeithiau newid hinsawdd:

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Newid Hinsawdd,
Amgylchedd a Materion Gwledig

Mai 2018



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor hwn ar 28 Mehefin 2016 i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisi, yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): newid yn yr hinsawdd, ynni, rheoli cyfoeth naturiol; cynllunio; lles anifeiliaid ac amaethyddiaeth.

Cadeirydd y Pwyllgor:



Mike Hedges AC
Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Gareth Bennett AC
UKIP Cymru
Canol De Cymru



Dawn Bowden AC
Llafur Cymru
Merthyr Tudful a Rhymni



Jayne Bryant AC
Llafur Cymru
Gorllewin Casnewydd



Dai Lloyd AC
Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru



David Melding AC
Ceidwadwyr Cymreig
Canol De Cymru



Simon Thomas AC
Plaid Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



Joyce Watson AC
Llafur Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Cynnwys

Argymhellion	5
1. Cyflwyniad	8
2. Cynnydd Llywodraeth Cymru ar y newid yn yr hinsawdd	11
3. Cynllun Masnachu Allyriadau yr UE	20
4. Rheoli tir	24
5. Trafnidiaeth	31
6. Tai ac Adeiladau	38
Atodiad A - Aelodau'r Grŵp Cyfeirio Arbenigol	42

Argymhellion

Argymhelliad 1. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ddarparu manylion am y camau penodol y mae wedi'u cymryd ac y bydd yn eu cymryd i wella ymgysylltiad a chydweithio ar draws y Cabinet mewn perthynas â lliniaru'r newid yn yr hinsawdd Tudalen 18

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal ymgynghoriad yn y Cynulliad a chyda rhanddeiliaid allanol ar y dull a awgrymir ganddi ar gyfer gwaith craffu'r Cynulliad ar gyllidebau carbon. Tudalen 18

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei hymgysylltiad hyd yma â rhanddeiliaid allanol wrth ddatblygu ei chyllidebau carbon a'i chynlluniau ar gyfer ymgysylltu yn y dyfodol..... Tudalen 18

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y bydd yn sicrhau bod y polisiau lliniaru'r newid yn yr hinsawdd y mae'n eu datblygu yn destun her ac adolygiad annibynnol, allanol..... Tudalen 19

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru roi manylion i'r Pwyllgor am yr hyn y cred y dylai fod yn ofynion Cynllun Masnachu Allyriadau newydd yr UE Tudalen 23

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru rannu gyda'r Pwyllgor hwn ddadansoddiad Pwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd o effaith ymadael â'r UE ar gyllidebau, targedau a pholisiau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd. Tudalen 23

Argymhelliad 7. Cyfeiriodd Llywodraeth Cymru at "ystod o fesurau' a fydd yn cyfrannu at gyflawni ei dyhead plannu hirdymor, ond y bydd angen amser arno i symud ymlaen. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu manylion am bob un o'r mesurau hyn, gan gynnwys beth ydynt, y plannu amcangyfrifedig a fydd yn deillio o bob un ohonynt, a'r amserlen ar gyfer pryd y bydd pob mesur yn cyflawni'r plannu amcangyfrifedig..... Tudalen 29

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i darged cenedlaethol o 20 y cant o orchudd canopi coed trefol.....Tudalen 30

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi yn flynyddol wybodaeth am gyfraddau plannu yng Nghymru a'r mathau o goed sy'n cael eu plannu. Tudalen 30

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am Fforwm Newid Hinsawdd y Diwydiant Amaeth, gan gynnwys ei aelodaeth, ei gylch gorchwyl, a manylion am ei gyfarfodydd.....Tudalen 30

Argymhelliad 11. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ddiweddarau'r Pwyllgor cyn gynted â phosibl ar gynnydd wrth fynd i'r afael â nifer ac amllder digwyddiadau llygredd amaethyddol.....Tudalen 30

Argymhelliad 12. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am ymagwedd Llywodraeth Cymru tuag at gynllunio yng nghyd-destun y cysyniad o "enillion amgylcheddol net".....Tudalen 30

Argymhelliad 13. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth adolygu Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor o fewn 6 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn. Dylai'r adolygiad gynnwys effaith y ddeddfwriaeth ar lefelau teithio llesol ac unrhyw wersi a ddysgwyd mewn perthynas â gweithredu'r ddeddfwriaeth..... Tudalen 37

Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru roi asesiadau carbon Llywodraeth Cymru o brosiect ffordd lliniaru'r M4 i'r Pwyllgor ac unrhyw asesiadau carbon a wnaed ar gyfer cynlluniau gwella priffyrdd yr A487 a'r A470. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ddarparu rhagor o wybodaeth am y graddau y mae swyddogion yn ei hadran wedi bod yn gysylltiedig â datblygu mesurau lliniaru a geir yn yr asesiadau carbon hyn..... Tudalen 37

Argymhelliad 15. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu tystiolaeth neu fodelu sy'n cefnogi ei sefyllfa y bydd gwella llif y traffig yn lleihau allyriadau ac yn gwella ansawdd yr aer..... Tudalen 37

Argymhelliad 16. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet rannu rhagor o wybodaeth gyda'r Pwyllgor hwn am y grŵp cynghori y mae'n ei sefydlu i ystyried sut y gellir defnyddio ffynonellau cyllid a chefnogaeth amgen er mwyn hwyluso rhaglen helaeth o waith ôl-osod..... Tudalen 41

Argymhelliad 17. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet rannu rhagor o wybodaeth gyda'r Pwyllgor am yr arolwg tystiolaeth o amodau tai ac unrhyw gamau y mae'n bwriadu eu cymryd o ganlyniad i'r arolwg..... Tudalen 41

Argymhelliad 18. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet rannu rhagor o wybodaeth gyda'r Pwyllgor ynghylch pryd y disgwylir i'r adolygiad o Ran L gael ei gwblhau. At hynny, dylai Ysgrifennydd y Cabinet rannu gyda'r Pwyllgor y gwaith a wnaethpwyd eisoes gan Lywodraeth Cymru i nodi mai dim ond manwl gyweirio'r safonau adeiladu presennol sydd ei angen i sicrhau ynni bron yn sero..... Tudalen 41

Argymhelliad 19. Dylai Llywodraeth Cymru egluro'r amserlen ar gyfer ei hadolygiad o gyflenwad tai fforddiadwy. Yn benodol, dylai egluro sut y mae'n bwriadu gweithredu ar werthuso dadansoddiad o effaith symud i ddarparu cartrefi di-garbon erbyn 2020, o gofio y disgwylir i'r grŵp gyflwyno adroddiad erbyn diwedd mis Ebrill 2019..... Tudalen 41

1. Cyflwyniad

1. Ym mis Rhagfyr 2016, cytunodd y Pwyllgor ar ei ddull o graffu ar y newid yn yr hinsawdd ar gyfer y Pumed Cynulliad. Mae hyn yn cynnwys:

- Craffu'n flynyddol ar waith Llywodraeth Cymru, i gynnwys sesiwn graffu'r Pwyllgor gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig a Gweinidog yr Amgylchedd;
- Dadl yn y Cyfarfod Llawn ar adroddiad y Pwyllgor yn codi o'i sesiwn graffu flynyddol gydag Ysgrifennydd y Cabinet a'r Gweinidog;
- Gwaith craffu ad hoc. Er enghraifft, os oes datblygiadau neu newidiadau arwyddocaol mewn polisi a gaiff effaith ar sectorau allweddol;
- Gwaith craffu ar ôl deddfu i gyd-fynd â'r cerrig milltir allweddol o ran gweithredu Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd hyn yn cynnwys datblygu cyllidebau a thargedau carbon, rheoliadau newydd a chyhoeddi polisiau newydd gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd;
- Mabwysiadu dull craffu traws-lywodraethol. Bydd hyn yn cynnwys sesiynau craffu a gohebiaeth gydag Ysgrifenyddion y Cabinet a Gweinidogion perthnasol ynghylch eu gwaith, polisiau a datblygiadau mewn perthynas â'r newid yn yr hinsawdd;
- Gofyn am friffiau technegol gan Bwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd ac arbenigwyr perthnasol eraill ar ddulliau o fodelu'r newid yn yr hinsawdd, cyfrifyddu carbon a phennu cyllidebau carbon;
- Ystyried sut y mae deddfwrfeydd eraill y DU yn cynnal gwaith craffu ar y newid yn yr hinsawdd; a
- Chysylltu â Phwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd a chroesawu proses briodol o gyfnewid gwybodaeth ac ymgysylltu â Llywodraeth Cymru.

2. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â sesiwn graffu flynyddol gyntaf y Pwyllgor gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig a Gweinidog yr Amgylchedd.

Craffu ar waith Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth

3. Ym mis Chwefror 2018, cyhoeddodd y Pwyllgor adroddiad o'i graffu ar waith Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth. Mae'r adroddiad hwnnw'n ystyried nifer o faterion sy'n ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd. Mae'r adroddiad ar gael ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru.¹

Y Grŵp Cyfeirio Arbenigol ar Newid Hinsawdd

4. Ar 6 Hydref 2016, cytunodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig i sefydlu Grŵp i'w gefnogi wrth graffu ar bolisïau, camau gweithredu a chynnydd sy'n ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd. Dyma gylch gorchwyl y Grŵp:

“Darparu cyngor arbenigol i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig i'w gynorthwyo yn ei waith o graffu ar yr hyn y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud i gyflawni ymrwymïadau polisi, dyletswyddau a thargedau statudol o ran y newid yn yr hinsawdd. Mae hyn yn cynnwys mesurau lliniaru ac addasu o ran y newid yn yr hinsawdd.

Bydd hyn yn cynnwys:

- darparu cyngor i gefnogi cylch craffu blynyddol;
- cynorthwyo'r Pwyllgor yn ei waith craffu ar ôl deddfu ar Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;
- cysylltu'n rhagweithiol â'r Pwyllgor wrth ymateb i faterion sy'n dod i'r amlwg ar draws amrywiaeth eang o sectorau; ac
- ymateb i geisiadau penodol am gyngor mewn perthynas â gwaith y Pwyllgor.”

5. Cynhaliodd y Grŵp bedwar cyfarfod rhwng mis Chwefror 2017 a mis Chwefror 2018, gan gynnwys cyflwynïadau a thrafodaethau ynghylch materion perthnasol gyda Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Farwnes Brown, Cadeirydd Is-bwyllgor Addasu y Pwyllgor Newid Hinsawdd.

¹ www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld11426/cr-ld11426-w.pdf

- 6.** Mae cofnodion cyfarfodydd y Grŵp ar gael ar wefan y Pwyllgor. Mae rhestr o'r rhai a fynychodd gyfarfodydd y Grŵp Cyfeirio Arbenigol ynghlwm yn Atodiad A yr adroddiad hwn.
- 7.** Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i'r Grŵp Cyfeirio Arbenigol am ei waith, sydd wedi llywio'r broses graffu a'r adroddiad hwn.

2. Cynnydd Llywodraeth Cymru ar y newid yn yr hinsawdd

Ymrwymadau Llywodraeth Cymru

8. Roedd Strategaeth Newid Hinsawdd (2010) Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i ostwng cyfanswm yr allyriadau nwyon tŷ gwydr i lefel 40 y cant islaw lefelau 1990 erbyn 2020. Roedd y Strategaeth hefyd yn cynnwys targed i leihau allyriadau mewn ardaloedd o fewn cymhwysedd datganoledig gan 3 y cant bob blwyddyn o 2011, o'i gymharu â llinell sylfaen allyriadau cyfartalog yn ystod 2006-2010.

9. Roedd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ("Deddf yr Amgylchedd") yn gosod dyletswyddau newydd ar Lywodraeth Cymru i leihau allyriadau, a oedd yn cynnwys y canlynol:

- Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod yr allyriadau net ar gyfer 2050 o leiaf 80 y cant yn is na'r llinell sylfaen (1990 neu 1995);
- Erbyn diwedd 2018, rhaid i Lywodraeth Cymru bennu targedau allyriadau interim ar gyfer 2020, 2030 a 2040;
- Ar gyfer pob cyfnod cyllidebol pum mlynedd, rhaid i Lywodraeth Cymru bennu uchafswm ar gyfer allyriadau net Cymru (cyllideb garbon), gyda'r ddwy gyllideb gyntaf i'w pennu erbyn diwedd 2018; a
- Bydd gofyn i Lywodraeth Cymru ystyried cytundebau rhyngwladol i gyfyngu ar gynnydd yn y tymheredd cyfartalog byd-eang.

10. Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol) yn cefnogi lleihau carbon ar lefel genedlaethol a lleol. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, weithio i gyflawni pob un o'r saith nod llesiant, y mae tri ohonynt yn cyfeirio'n benodol at y newid yn yr hinsawdd.

Cynnydd yn erbyn targedau Llywodraeth Cymru

11. Mae'r ystadegau allyriadau diweddaraf a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn dangos bod allyriadau Cymru, yn 2015, 19 y cant yn is na lefelau 1990.

Mae hyn yn erbyn ei tharged ei hun o ostyngiad o 40 y cant² erbyn 2020. Dros yr un cyfnod, gostyngodd allyriadau ar draws y DU 27 y cant.

12. Mae Pwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd wedi sylwi bod y cynnydd yn parhau i fod ymhell iawn o gyrraedd targed presennol Llywodraeth Cymru i'w lleihau i 40 y cant islaw lefelau 1990 erbyn 2020.

13. Mae'r cynnydd wedi bod yn arafach yng Nghymru na'r DU yn gyffredinol, yn rhannol gan fod gan Gymru gyfran llawer mwy o allyriadau diwydiant. Mae dadansoddiad Pwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd o allyriadau yng Nghymru yn dangos:

- Mae allyriadau'r sector pŵer wedi cynyddu 17 y cant ers 1990, oherwydd cynnydd mewn cynhyrchu ynni gan ddefnyddio nwy ac allyriadau parhaus o orsaf pŵer glo Aberddawan. Roedd Aberddawan yn cynrychioli 51 y cant o allyriadau pŵer Cymru ac 14 y cant o gyfanswm yr allyriadau yng Nghymru yn 2015;
- Mae allyriadau diwydiant wedi bod yn gymharol wastad ers 2008, er eu bod wedi gostwng tua 31 y cant ers 1990. Mae'r gostyngiad hwn yn llai na'r gostyngiad o 48 y cant mewn allyriadau diwydiannol o'r DU yn gyffredinol dros y cyfnod hyd at 2015;
- Mae allyriadau uniongyrchol o adeiladau 26 y cant yn is na lefelau 1990, yn bennaf oherwydd cynnydd mewn effeithlonrwydd boeleri a gwelliannau i adeiladwaith;
- Mae allyriadau gwastraff yng Nghymru wedi gostwng 72 y cant ers 1990;
- Mae allyriadau amaethyddol wedi gostwng 15 y cant ers 1990, ond maent wedi codi ychydig ers 2009. Mae maint y ddalfa defnydd tir wedi lleihau oherwydd bod mwy o dir yn cael ei drawsnewid yn aneddiadau a gostyngiad mewn cyfraddau plannu coed; ac
- Mae allyriadau trafndiaeth wedi bod yn gymharol wastad ers 1990.

Y cyngor gan Bwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd

14. Comisiynodd Llywodraeth Cymru Bwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd i roi cyngor iddi, i ddechrau, ar *ddyluniad* targedau a chyllidebau carbon Cymru (Ebrill 2017), ac, yn fwy diweddar (Rhagfyr 2017), ar *lefel* y targedau allyriadau a'r cyllidebau carbon sydd eu hangen i fodloni ei rhwymedigaethau fel y nodir yn

² Fel y nodir yn Strategaeth Newid Hinsawdd (2010) Llywodraeth Cymru.

Neddf yr Amgylchedd (Cymru). Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhellion yng nghyfran gyntaf cyngor Pwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd ym mis Gorffennaf 2017.

15. Mae'r ail gyfran o gyngor Pwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd yn gwneud nifer o sylwadau ac argymhellion:

- Bydd sicrhau gostyngiad o 80 y cant mewn allyriadau erbyn 2050 yn fwy o her nag y bydd sicrhau'r gostyngiad cyfatebol i'r DU gyfan (yn bennaf oherwydd nifer yr "allyryddion mawr");
- Mae'n argymhell y targedau a ganlyn:
 - Targed ar gyfer 2020 i leihau allyriadau 27 y cant o lefelau 1990;
 - Targed ar gyfer 2030 i leihau allyriadau 45 y cant o lefelau 1990; a
 - Tharged ar gyfer 2040 i leihau allyriadau 67 y cant o lefelau 1990.
- Mae'r targedau hyn ar y trywydd cywir tuag at ostyngiad o 80 y cant yn yr allyriadau yng Nghymru erbyn 2050.

Cyllidebau carbon

16. Dywed Pwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd mai prin yw'r cyfle i bolisïau newydd gyflawni'r gyllideb garbon gyntaf. Mae'n awgrymu:

- Bod allyriadau dros gyfnod y gyllideb garbon gyntaf (2016-20) yn cael eu cadw i 23 y cant yn is ar gyfartaledd na'r allyriadau ym 1990; a
- Bod allyriadau dros gyfnod yr ail gyllideb garbon yn cael eu cadw i 33 y cant yn is ar gyfartaledd na'r allyriadau ym 1990.

17. Mae'r lefelau a argymhellir ar gyfer 2020 a'r ddwy gyllideb garbon gyntaf yn caniatáu ar gyfer parhau i gynhyrchu pŵer drwy losgi glo, ond ar gyfradd sy'n gostwng, yng ngorsaf bŵer Aberddawan. Os bydd allyriadau o'r orsaf bŵer hon yn peidio cyn 2025, dylid tynhau'r targedau hyn er mwyn cadw'r uchelgais a welir yn y targed ar gyfer 2020.

Dadansoddiad y Grŵp Cyfeirio Arbenigol³

Roedd y Grŵp Cyfeirio Arbenigol yn siomedig gyda thargedau 2020, 2030 a 2040 a argymhellwyd gan Bwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd. Awgrymodd eu bod yn dangos diffyg uchelgais, a gellid eu dehongli fel gwobr am ddiffyg gweithredu a diffyg cynnydd ar ran Llywodraeth Cymru hyd yma. Roedd y Grŵp yn teimlo y dylid gosod dyletswydd ar holl Ysgrifennyddion y Cabinet a'r Gweinidogion i wneud newidiadau er mwyn cyrraedd y targedau.

Cred y Grŵp nad yw'r targedau yn ystyried yr ymrwymadau a wnaed o dan Gytundeb Paris ddigon, ac y dylent fod yn fwy uchelgeisiol os yw Cymru o ddifrif ynglŷn â'i chyfrifoldebau byd-eang. Awgrymwyd bod angen targed uwch o 100 y cant erbyn 2050.

Mewn perthynas ag ail gyfran o gyngor Pwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd, roedd y Grŵp o'r farn bod diffyg arloesedd, ac y rhoddwyd cynnig ar y rhan fwyaf o'r argymhellion polisi a'r camau lliniaru a awgrymwyd yn y gorffennol heb fawr o lwyddiant.

Roedd y Grŵp yn pryderu ynghylch y graddau yr oedd Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â'r cyhoedd ynghylch yr heriau a gyflwynir yn sgil y newid yn yr hinsawdd.

Tystiolaeth Llywodraeth Cymru

18. Yn eu cyflwyniad ysgrifenedig i'r Pwyllgor, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet a'r Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn gwerthuso'r gyfran ddiweddaraf o gyngor Pwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd, ochr yn ochr â thystiolaeth arall, ac y byddai'n darparu diweddariad pellach ar eu sefyllfa yn ystod haf 2018. Yn ei ymateb i adroddiad y Pwyllgor ar graffu cyffredinol a chraffu ar y gyllideb (Chwefror 2018), cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth:

“Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ymateb i gyngor Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd (PDUNH) mewn perthynas â phennu targedau a chyllidebau carbon interim cyn toriad yr haf.”⁴

³ Sefydlwyd y Grŵp Cyfeirio Arbenigol gan y Pwyllgor yn 2017 i gefnogi'r gwaith o graffu ar bolisiau, camau gweithredu a chynnydd sy'n ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd.

⁴ www.assembly.wales/laid%20documents/gen-ld11519/gen-ld11519-w.pdf

19. Gofynnwyd i Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig pam nad oedd ymyriadau hyd yma wedi rhoi Cymru ar y trywydd cywir i gyrraedd targed 2020 yn y Strategaeth Newid Hinsawdd. Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet drwy ddweud:

“there are a number of factors that have limited our ability to be able to achieve this target, such as the role of the EU emissions trading system, the economic make-up and the sites we have across Wales...and the weather variability, which I think has been absolutely proven this year.”⁵

20. Eglurodd y swyddog a oedd gydag Ysgrifennydd y Cabinet ymagwedd Llywodraeth Cymru tuag at ei thargedau:

“if we look at the original climate change strategy, the 40 per cent target covers all emissions in Wales. The 3 per cent year-on-year cumulative target relates to areas of broadly devolved competence...whereas the new framework that we are establishing: Ministers and the Cabinet have already made a decision that, under the carbon budgeting framework, all emissions in Wales, including international aviation and shipping, will be counted as part of the budget.”⁶

21. Awgrymodd y swyddog, o ganlyniad i'r newid hwn mewn ymagwedd, fod cwestiwn ynghylch a fyddai'r targed o 3 y cant yn parhau.

22. Roedd tystiolaeth ysgrifenedig Ysgrifennydd y Cabinet a'r Gweinidog yn dweud y bydd y Cynllun Cyflenwi Carbon Isel, sydd i'w gyhoeddi ym mis Mawrth 2019, yn nodi cynigion a pholisïau ar gyfer y gyllideb garbon gyntaf, wedi'i rannu'n feysydd cyfrifoldeb Gweinidogol. Bydd gan Weinidogion Cymru gyfrifoldeb cyfunol, hirdymor dros gyflawni'r newid yn yr hinsawdd. Wrth gyfeirio at y cyllidebau carbon, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei bod yn disgwyl i'r broses o graffu ar waith y Cynulliad fod yn debyg i'r hyn ar gyfer Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru. Dywedodd y swyddog a oedd gydag Ysgrifennydd y Cabinet:

“...we're currently working on the regulations for the first budgets and then by March we'll need to table our first plan, which will be a cross-Governmental plan, which will set out both the steps we're taking to

⁵ <http://cofnod.cynulliad.cymru/Committee/4550>

⁶ <http://cofnod.cynulliad.cymru/Committee/4550>

reduce emissions as well as the steps that we're taking to support the transition to a low-carbon economy.”⁷

23. Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch graddau cydweithio ar draws y Cabinet, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

“I think we are joining up better than we were, and certainly on carbon budgeting. Obviously, we're in the first carbon budget period now. While we're going through the process of setting the next three carbon budgets, we've met with all the Cabinet Secretaries and Ministers to be able to do that...We are seeing much more of a join up.”⁸

24. Cyfeiriodd Ysgrifennydd y Cabinet at gyflwyniad diweddar a roddwyd i aelodau'r Cabinet gan ddadansoddwr ym maes y newid yn yr hinsawdd. Dywedodd:

“you could see the look on every Cabinet Secretary and Minister's face – it was really stark, his analysis of all of our portfolios and all our policies and what we needed to do to decarbonise several aspects...”⁹

25. Gan ddisgrifio ymagwedd Llywodraeth Cymru tuag at gyllidebau carbon, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei bod yn disgwyl edrych am gyngor gan Bwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd. Mae'r Pwyllgor yn cyflawni swyddogaeth debyg i Lywodraeth y DU. Felly, rhagwelir y bydd y broses o graffu ar waith y Cynulliad yn debyg i'r hyn ar gyfer Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru.

26. O ran cynhyrchu ynni, cyfeiriodd Ysgrifennydd y Cabinet at y targed o 70 y cant o gynhyrchiant yng Nghymru i gael ei fodloni gan adnoddau adnewyddadwy erbyn 2030. Cred fod hyn yn uchelgeisiol iawn, ond hefyd yn gyraeddadwy. Dywedodd ei bod yn cynnull grŵp, i gynnwys y Grid Cenedlaethol, Ofgem a gweithredwyr rhwydweithiau ynni, i ystyried gofynion ynni yn y dyfodol.

27. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet a'r Gweinidog fod swyddogion yn gweithio gyda Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i ymgorffori ffyrdd o weithio ac ymrwymadau llesiant ehangach yn Rhaglen Ddatgarboneiddio Llywodraeth Cymru. Roedd hefyd yn dweud y byddai Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar sut y gall Cymru gyflawni ei nodau hinsawdd hirdymor ar gyfer datgarboneiddio.

⁷ <http://cofnod.cynulliad.cymru/Committee/4550>

⁸ ibid

⁹ ibid

Ein barn ni

Ni fydd Llywodraeth Cymru yn cyrraedd ei thargedau ar gyfer lleihau allyriadau erbyn 2020, fel y nodir yn ei Strategaeth Newid Hinsawdd (2010).

Mae'r Pwyllgor yn nodi'r tri rheswm - Cynllun Masnachu Allyriadau yr UE, cyfansoddiad economaidd Cymru a phatrymau tywydd - a roddwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros y methiant hwn. Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai'r newidynnau hyn fod wedi'u hadlewyrchu wrth lunio'r polisi a'u cynnwys yn y gwaith o ddatblygu targedau realistig a chyraeddadwy.

Cafodd ein Grŵp Cyfeirio Arbenigol ei siomi gan y targedau is newydd a awgrymwyd gan Bwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd a chredai y gellid ystyried ymagwedd o'r fath yn gwobrwo methiant. Mae dull Pwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd o osod targedau is yn bragmatig ac, o ystyried y diffyg cynnydd hyd yma, yn angenrheidiol. Fodd bynnag, mae'n anffodus bod hyn yn wir.

Mae Llywodraeth Cymru yn wynebu her ychwanegol sy'n deillio o nifer yr "allyrwyr mawr" yng Nghymru. Felly, mae angen gwneud y mwyaf o effaith ymyriadau i leihau allyriadau mewn meysydd eraill, megis trafniadaeth a thai. Rhaid i Lywodraeth Cymru hefyd drafod gyda'r "allyrwyr mawr" sut y gellir lleihau eu hallyriadau ac a all Llywodraeth Cymru gefnogi hyn. Ar hyn o bryd, ymddengys bod Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar yr allyrwyr mawr, fel Aberddawan, yn cau i lawr yn y pen draw, a'r gostyngiadau canlyniadol mewn allyriadau, i gyrraedd ei thargedau. Er bod hwn yn ddull pragmatig, ni ddylai fod yn ymateb polisi sylfaenol Llywodraeth Cymru i'r newid yn yr hinsawdd.

Mae'r Pwyllgor yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru y bydd yr holl allyriadau yng Nghymru, gan gynnwys hedfan a llongau rhyngwladol, yn cael eu cynnwys yn y fframwaith cyllidebu carbon. Fodd bynnag, ni ddylai cynnwys allyriadau sy'n codi o faterion sydd y tu allan i gymhwysedd datganoledig dynnu sylw o faterion lle mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb uniongyrchol. Bydd angen i Ysgrifennydd y Cabinet fod yn wiliadwrus i sicrhau na fydd hyn yn digwydd.

Rydym yn nodi'r sylwadau y bydd holl Ysgrifenyddion y Cabinet a'r Gweinidogion, o ganlyniad i'r broses cyllidebu carbon, yn meddu ar gyfrifoldeb cyfunol, hirdymor am gyflawni'r newid yn yr hinsawdd. Mae'r Pwyllgor yn croesawu didwylledd sylwadau Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch gweithio cydgysylltiedig wedi gwella yn ddiweddar, o ganlyniad i waith Llywodraeth Cymru ar ddatgarboneiddio.

Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth hon yn awgrymu, hyd yma, bod lefel yr ymgysylltiad gan aelodau'r Cabinet yn gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd wedi bod yn annigonol. Mae'n awgrymu bod cydweithio ar draws y Cabinet hefyd wedi bod yn ddiffygiol. Gallai hyn fod yn rheswm pam na fydd Llywodraeth Cymru yn cyrraedd y targedau yn ei Strategaeth Newid Hinsawdd. Mae'r Pwyllgor yn falch o glywed bod yr agweddau hyn yn gwella o ganlyniad i'r broses cyllidebu carbon statudol.

Mae'r Pwyllgor yn nodi sylwadau Ysgrifennydd y Cabinet ar y broses o gyllidebu carbon, ond mae diffyg manylion am y broses gyda dim ond un flwyddyn hyd nes cyhoeddi Cynllun Cyflenwi Carbon Isel Llywodraeth Cymru. At hynny, mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei chyllidebau carbon cyntaf cyn diwedd 2018. Mae'r diffyg eglurder ar y cam hwyr hwn yn destun pryder.

Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi awgrymu y gellid defnyddio proses debyg ar gyfer y gwaith craffu ar y Gyllideb ar gyfer craffu ar gyllidebau carbon y Cynulliad. Wrth gwrs, byddai proses graffu gadarn yn cael ei chrosawu, ond credwn y dylai manylion y broses honno fod yn fater i ymgynghori arno yn y Cynulliad a chyda rhanddeiliaid allanol.

Mae angen her allanol i ddatblygiad polisi Llywodraeth Cymru, er enghraifft, ar ffurf proses adolygiad gan gymheiriaid.

Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ddarparu rhagor o wybodaeth am fwriad Llywodraeth Cymru ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ar sut y gellir cyrraedd targedau datgarboneiddio 2030 a sut y caiff y wybodaeth a gesglir ei defnyddio. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet hefyd ddarparu gwybodaeth am sut y mae'n bwriadu ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, wrth ddatblygu ei gyllidebau carbon.

Argymhelliad 1. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ddarparu manylion am y camau penodol y mae wedi'u cymryd ac y bydd yn eu cymryd i wella ymgysylltiad a chydweithio ar draws y Cabinet mewn perthynas â lliniaru'r newid yn yr hinsawdd.

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal ymgynghoriad yn y Cynulliad a chyda rhanddeiliaid allanol ar y dull a awgrymir ganddi ar gyfer gwaith craffu'r Cynulliad ar gyllidebau carbon.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei hymgysylltiad hyd yma â rhanddeiliaid allanol wrth ddatblygu ei chyllidebau carbon a'i chynlluniau ar gyfer ymgysylltu yn y dyfodol.

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y bydd yn sicrhau bod y polisiâu lliniaru'r newid yn yr hinsawdd y mae'n eu datblygu yn destun her ac adolygiad annibynnol, allanol.

3. Cynllun Masnachu Allyriadau yr UE

28. System Masnachu Allyriadau yr UE yw marchnad garbon fwyaf y byd. Mae'n gweithredu mewn 31 o wledydd (pob un o'r 28 o wledydd yn yr Undeb Ewropeaidd ynghyd â Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a Norwy) ac mae'n cwmpasu tua 45 y cant o allyriadau nwyon tŷ gwydr yr Undeb Ewropeaidd. Ar hyn o bryd mae 78 o gwmnïau yn cael eu cwmpasu gan y Cynllun yng Nghymru, gan gynnwys Tata Steel, Gorsaf Bŵer Aberddawan, Airbus a Ford. Yng Nghymru, Cyfoeth Naturiol Cymru yw rheoleiddiwr y cynllun.

29. Mae'r Cynllun yn gweithio ar yr egwyddor "cap a masnach". Caiff cap ei bennu ar gyfanswm nwyon tŷ gwydr penodol a all gael eu hallyrru gan osodiadau a gwmpesir gan y system. Caiff y cap ei leihau dros amser fel bod cyfanswm yr allyriadau'n gostwng. O fewn y cap, mae cwmnïau'n derbyn neu'n prynu lwfansau allyriadau y gallant eu masnachu â'i gilydd yn ôl yr angen. Gallant hefyd brynu symiau cyfyngedig o gredydau rhyngwladol o brosiectau arbed allyriadau ledled y byd. Mae'r terfyn ar gyfanswm nifer y lwfansau sydd ar gael yn sicrhau bod gwerth iddynt.

30. Bob blwyddyn rhaid i gwmni ildio digon o lwfansau i gwmpasu ei holl allyriadau, neu fel arall codir dirwyon trwm arnynt. Os bydd cwmni'n lleihau ei allyriadau, gall gadw'r lwfansau sydd dros ben i ddiwallu ei anghenion yn y dyfodol neu eu gwerthu i gwmni arall sy'n brin o lwfansau. Nod masnachu yn y ffordd hon yw cyflwyno hyblygrwydd sy'n sicrhau bod allyriadau'n cael eu cwtogi yn y meysydd lle mae'r gost o wneud hynny ar ei hisaf. Mae pris carbon cadarn hefyd yn hyrwyddo buddsoddiad mewn technolegau glân, carbon isel.

31. Ym mis Mawrth 2018, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei dadansoddiad o feysydd cyfraith yr UE sy'n gorgyffwrdd â chymhwysedd datganoledig. Mae'n cyfeirio at Gynllun Masnachu Allyriadau yr UE fel un o 24 o feysydd polisi sy'n destun trafodaeth fanylach i ystyried a oes angen trefniadau fframweithiau cyffredin deddfwriaethol, yn gyfan gwbl neu'n rhannol.

Tystiolaeth Llywodraeth Cymru

32. Fel y nodwyd yn y bennod flaenorol, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet mai un o'r rhesymau na fyddai Llywodraeth Cymru yn cyrraedd ei tharged o ostyngiad o 40 y cant mewn allyriadau erbyn 2020 (Strategaeth Cymru ar Newid Hinsawdd) yw oherwydd Cynllun Masnachu Allyriadau yr UE. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

“the EU ETS is for the whole of Europe, and I don’t think it works as well as we anticipated for Wales, because it’s looking at the whole of Europe. Within Wales, ETS emissions actually rose by 12 per cent between 2010 and 2016, and because these emissions account for greater than 50 per cent of our total emissions, it then impacts on our ability to deliver the 40 per cent target.”¹⁰

33. Dywedodd swyddog a oedd gydag Ysgrifennydd y Cabinet fod nifer o ddulliau posibl a allai ddilyn Cynllun Masnachu Allyriadau yr UE, unwaith y bydd y DU wedi ymadael â'r UE:

“There are a range of options we need to look at, ranging from staying within the current EU ETS to setting up, maybe, a UK ETS, or agglomerating at a sub-national level, so Wales having its own scheme.”¹¹

34. Dywedodd y swyddog fod angen trafodaethau pellach gyda Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig eraill i ystyried yr opsiynau hyn. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei bod yn rhwystredig gyda'r diffyg cynnydd ar y mater hwn.

35. Cyfeiriodd Ysgrifennydd y Cabinet at drafodaethau a ddigwyddodd gyda Phwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd ynghylch yr effaith bosibl o adael Cynllun Masnachu Allyriadau yr UE ar dargedau allyriadau a chyllidebu carbon. Dywedodd y byddai'n gofyn i Bwyllgor y DU edrych ar y mater hwn yn fanwl unwaith y daw'r sefyllfa yn gliriach. Dywedodd y swyddog a oedd gydag Ysgrifennydd y Cabinet:

“What they’ve done, as the Cabinet Secretary has outlined, is an assessment not just of EU ETS but all the legislation, and almost coming to the conclusion that if we have to deliver on our carbon budgets, be it at Wales or UK level, then it is clear that we currently depend on a lot of EU policies or directives to drive that—probably over 50 per cent, going forward. So, leaving the EU, we’ll need to think about not only maintaining a lot of those directives or policies, but, arguably, strengthening them. The EU ETS is one mechanism within that. I think they are waiting—. UK committee on climate change will wait to see what the policy direction is on Brexit more generally before they can

¹⁰ <http://cofnod.cynulliad.cymru/Committee/4550>

¹¹ *ibid*

then give more detailed advice about what future schemes or proposals might look like.”¹²

Ein barn ni

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Ysgrifennydd y Cabinet yn rhwystredig oherwydd diffyg cynnydd yn penderfynu beth fydd yn digwydd nesaf gyda Chynllun Masnachu Allyriadau yr UE. Safbwynt Ysgrifennydd y Cabinet yw mai un o'r rhesymau na fydd Llywodraeth Cymru yn llwyddo i gyrraedd ei thargedau allyriadau ynni ar gyfer 2020 yw rôl Cynllun Masnachu Allyriadau yr UE.

Fodd bynnag, nid yw gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cynllun olynol yn eglur. Os yw Llywodraeth Cymru o'r farn nad yw'r cynllun presennol yn iawn i Gymru, rhaid iddi fanteisio ar y cyfle hwn i ddylanwadu ar lunio ei holynydd i ddiwallu anghenion Cymru yn well.

At hynny, mae'r Pwyllgor o'r farn bod hwn yn faes hanfodol, ac mae'n pryderu nad oes digon o gynnydd wedi'i wneud ar lefel y DU. Rhaid i'r gweinyddiaethau datganoledig, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, bwysu am fwy o gynnydd.

Gwnaeth y Pwyllgor hwn yr argymhelliad a ganlyn i Lywodraeth Cymru ar y mater hwn yn ei adroddiad ar waith craffu cyffredinol a chraffu ar y gyllideb Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Chwefror, 2018):

“Heb fod yn hwyrach na 6 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru: roi manylion i'r Pwyllgor am yr hyn y mae'n credu y dylai fod yn ofynion system fyddai'n cymryd lle System Masnachu Allyriadau yr UE; ac adrodd i'r Pwyllgor hwn ar gynnydd trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynghylch system newydd bosibl i gymryd lle y cynllun hwn.”¹³

Yn ei ymateb i'r adroddiad hwnnw, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth:

“Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig yn gweithio gyda'r cynrychiolwyr cyfatebol yn y Gweinyddiaethau Datganoledig eraill a gyda Llywodraeth y DU i bennu a oes angen fframwaith neu a fyddai fframwaith yn ddymunol. Bydd yn rhoi diweddariad ar y trafodaethau i'r Pwyllgor o fewn 6 mis.”¹⁴

¹² <http://cofnod.cynulliad.cymru/Committee/4550>

¹³ www.assembly.wales/laid%20documents/gen-ld11519/gen-ld11519-w.pdf

¹⁴ ibid

Mae'r dystiolaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn awgrymu bod y rhan fwyaf o'r mecanweithiau ar gyfer cyrraedd y targedau o ran y newid yn yr hinsawdd a lleihau allyriadau yn deillio o gyfarwyddebau neu reoliadau'r UE. O ganlyniad i hyn, bydd angen eu hadnewyddu neu eu cryfhau unwaith y bydd y DU wedi ymadael â'r UE. Mae'n ddefnyddiol bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu ceisio cyngor pellach gan Bwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd ar y mater hwn.

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru roi manylion i'r Pwyllgor am yr hyn y cred y dylai fod yn ofynion Cynllun Masnachu Allyriadau newydd yr UE

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru rannu gyda'r Pwyllgor hwn ddadansoddiad Pwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd o effaith ymadael â'r UE ar gyllidebau, targedau a pholisïau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd.

4. Rheoli tir

36. Yn 2014, roedd amaethyddiaeth a defnyddio tir yn **cyfrif am 12 y cant o gyfanswm yr allyriadau yng Nghymru**, a 21 y cant o'r allyriadau o fewn cymhwysedd datganoledig. Gostyngodd allyriadau o'r sectorau hyn rhwng 2006 a 2013, yn bennaf oherwydd dirywiad mewn niferoedd da byw a gostyngiad yn y defnydd o wrtaith nitrogen. Cafwyd ychydig o gynnydd rhwng 2013 a 2014, sy'n cael ei briodoli i gynnydd yn nifer y defaid a gwartheg godro.

37. Daw'r rhan fwyaf o'r allyriadau amaethyddiaeth o ocsid nitrus a methan drwy'r defnydd o wrtaith a thail, prosesau pridd ac allyriadau anifeiliaid cnoi cil. Caiff allyriadau ychwanegol eu creu o drin a throsi rhwng gwahanol ddefnyddiau tir. Mae hyn yn ymwneud ag allyriadau a dalfeydd o fiomas a phriddoedd o wahanol fathau. Mae'r sector defnydd tir, newid defnydd tir a choedwigaeth yn ddalfa garbon net. Mae'r sector hwn yn faes lle mae gan Lywodraeth Cymru nifer o ysgogiadau, er bod llawer o'r rhain ar hyn o bryd yn gweithredu o fewn Fframweithiau'r UE megis y Polisi Amaethyddol Cyffredin a'r Cynllun Datblygu Gwledig ehangach a gofynion rheoliadol.

38. Nododd Strategaeth Cymru ar Newid Hinsawdd 2010 nifer o feysydd i gamau gweithredu Llywodraeth Cymru ganolbwyntio arnynt yn y maes hwn:

- Cynlluniau amaethyddiaeth a rheoli tir sy'n targedu camau gweithredu a fydd yn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr;
- Creu mwy o goetiroedd;
- Cyngor a chefnogaeth i ffermwyr; a
- Rhaglenni mapio cig coch a llaeth.

Y cyngor gan Bwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd

39. Gwnaeth Pwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd, yn ei ail gyfran o gyngor, argymhellion ar amaethyddiaeth a choedwigaeth:

- Dylai Llywodraeth Cymru roi polisiau ffermio ar waith i leihau allyriadau sy'n mynd ymhellach na'r dull gwirfoddol presennol a rhoi fframwaith ar waith yn lle'r Polisi Amaethyddol Cyffredin sy'n cysylltu cymorth â mesurau ar gyfer lleihau a dileu allyriadau, a gwella gallu'r amgylchedd naturiol i wrthsefyll effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

- Mae'r cyfraddau plannu presennol yng Nghymru yn is o lawer na thargedau plannu coed uchelgeisiol Llywodraeth Cymru. Dylai Llywodraeth Cymru symleiddio a chyflymu'r broses ar gyfer cymorth i blannu coed a lleihau'r rhwystrau i weithredu.

Tystiolaeth Llywodraeth Cymru

Coedwigaeth a choetiroedd

40. Mae gan goedwigaeth a choetiroedd ran bwysig yn y broses o ddal a storio carbon. Roedd y Strategaeth Newid Hinsawdd yn gofyn yn benodol am: "...ehangu coetiroedd Cymru trwy gynyddu'r gyfradd plannu gyffredin o thua 500 hecтар i 5,000 hecтар y flwyddyn yn gyson dros 20 mlynedd". Mae hyn gyfystyr â chreu 100,000 hecтар o goetiroedd newydd rhwng 2010 a 2030. Fodd bynnag, yn ôl **Cynllun Gweithredu Coetiroedd i Gymru (2015-2020)**, dim ond 3,203 hecтар o goed newydd a blannwyd rhwng 2010 a 2015.

41. Cadarnhaodd Gweinidog yr Amgylchedd fod Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i'r targed hwnnw. Roedd papur Llywodraeth Cymru yn nodi fel a ganlyn:

"The new planting aspiration is 2,000 hectares a year with the aim of around 1,000 hectares delivered through Glastir. The other half would be achieved through more privately funded planting or other means. Current planting rates are not delivering the target for new woodland. However, Welsh Government views this as a long term aspiration which will need time for a range of measures to make progress rather than a straight line annual progression."¹⁵

42. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor ei bod wedi trafod Parc Tirwedd y Cymoedd gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, a chred fod hyn yn cynnig cyfle i gynyddu plannu.

Amaethyddiaeth

43. Yn eu cyflwyniad ysgrifenedig, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet a'r Gweinidog fod Llywodraeth Cymru wrthi'n asesu heriau newidiadau i amodau masnachu ar gyfer ffermwyr ar ôl ymadael â'r UE, gan gynnwys diwedd y Polisi Amaethyddol Cyffredin. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys effaith ymadael â'r UE ar yr

¹⁵

angen i fodloni ymrwymïadau rhyngwladol a domestig i leihau allyriadau o'r sector amaeth. Aeth y Gweinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet ymlaen i ddweud:

“We want to keep farmers on the land. Our new policy should centre on Welsh land delivering public goods for all the people of Wales. This may include actions such as tree planting and peat bog restoration to increase the scale of the carbon sink in land use.”¹⁶

44. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor y byddai'n sefydlu grŵp o randdeiliaid i ystyried y cysylltiadau rhwng rheoli tir a nwyddau cyhoeddus yn y dyfodol, a byddai'n cyflwyno adroddiad iddi erbyn yr haf.

45. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei bod hi'n anodd rhoi polisiau ar waith¹⁷ gan fod y cyllid ar gyfer amaethyddiaeth yn y dyfodol yn parhau i fod yn aneglur. Mae wedi gofyn i'r Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru ymgymryd â gwaith ymchwiliol mewn perthynas â chyfeiriad hirdymor ar gyfer cymorth a pholisi amaethyddol. Roedd hefyd wedi trafod gyda phrifysgolion Cymru y rôl bosibl y gallent ei chwarae mewn gwaith tebyg.

46. Fforwm sy'n cael ei arwain gan y diwydiant yw Fforwm Newid Hinsawdd y Diwydiant Amaeth, sy'n darparu tystiolaeth a barn arbenigol i Lywodraeth Cymru ar opsiynau i sicrhau'r newid gorau posibl. Mae'r grŵp yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i wneud y canlynol:

- Gweithio gyda'r gadwyn fwyd ehangach i weithredu ymagwedd genedlaethol tuag at Lywio Carbon; a
- Datblygu a chytuno ar gyfres genedlaethol o ddangosyddion perfformiad lefel uchel ac is-gyfres o ddangosyddion perfformiad o fewn fframwaith gwerthuso a monitro cadarn i fesur cynnydd yn y sector amaethyddiaeth a busnesau bwyd Cymru.

47. Wrth gyfeirio at ddigwyddiadau llygredd amaethyddol, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei bod yn siomedig o weld nifer y digwyddiadau llygredd amaethyddol.¹⁸ Er mwyn mynd i'r afael â'r mater dywedodd fod yn well ganddi ddull sy'n wirfoddol ond sy'n cynnwys rhywfaint o reoleiddio. Roedd yn cydnabod brys y broblem hon ac roedd wedi gofyn i grŵp o gynrychiolwyr o'r sector lunio

¹⁶

www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s73301/Papur%20gan%20y%20Lywodraeth%20Cymru.pdf

¹⁷ <http://cofnod.cynulliad.cymru/Committee/4550>

¹⁸ ibid

argymhellion erbyn diwedd mis Mawrth 2018. Dywedodd y byddai'n well ganddi weithio mewn partneriaeth â'r sector, ond pe na bai hynny'n gweithio, y byddai'n edrych ar y mater eto.

Cynllunio

48. Yn ei ail ddarn o gyngor, dywedodd Pwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd fod y fframwaith cynllunio yn ddull defnyddiol arall y mae angen ei alinio'n dda ag amcanion ar gyfer lleihau allyriadau yng Nghymru, er enghraifft drwy annog cerdded, beicio, defnyddio trafndiaeth gyhoeddus a phwyntiau gwefru cerbydau trydan. Soniodd swyddog a oedd gydag Ysgrifennydd y Cabinet am y ffocws ar "wneud lle" yn nogfen "Polisi Cynllunio Cymru" Llywodraeth Cymru yr ymgynghorir arni ar hyn o bryd. Aeth ymlaen i sôn am y cysyniad o "enillion amgylcheddol net":

"if you're developing something, can you actually have an environmental gain as part of that?"¹⁹

49. Dywedodd y swyddog hefyd y byddai'r dull "gwneud lle" yn gyfle i edrych yn fanylach ar blannu coed mewn amgylcheddau trefol.²⁰

50. Mewn ymateb i gwestiwn am yr ymgynghoriad ar gyfer y degfed argraffiad o Bolisi Cynllunio Cymru a sylw'r cyfryngau yn ddiweddar o'i effaith ar ddiogelu coetiroedd hynafol, dywedodd y swyddog a oedd gydag Ysgrifennydd y Cabinet:

"the language is different, but the emotion behind it in terms of protecting woodland is the same. So, the words have changed, but we are still seeking to protect ancient woodlands. Obviously, it's a consultation at the moment. If people have concerns, we'll look again at the words."²¹

Ein barn ni

Coedwigaeth a choetir

Un o brif negeseuon adroddiad y Pwyllgor hwn, "Heb gyrraedd gwreiddyn y mater: uchelgais newydd ar gyfer polisiau coetiroedd yng Nghymru" (2017) oedd pryder ynghylch y diffyg difrifol o greu coetiroedd newydd yng Nghymru.

¹⁹ <http://cofnod.cynulliad.cymru/Committee/4550>

²⁰ <http://cofnod.cynulliad.cymru/Committee/4550>

²¹ <http://cofnod.cynulliad.cymru/Committee/4550>

Mae'n annhebygol iawn y bydd Llywodraeth Cymru yn cyrraedd ei tharged o greu 100,000 hectar o goetiroedd newydd ar gyfer 2010-2030 heb newid sylfaenol mewn dull gweithredu. Yn ystod y chwe blynedd gyntaf y mae'r targed hwn yn gymwys iddynt (2010-16), dim ond 3,500 hectar o goetiroedd newydd a grëwyd yng Nghymru. I gyrraedd y targed o greu 100,000 hectar o goetiroedd newydd, bydd angen i Gymru greu 96,500 hectar yn ystod 14 mlynedd olaf y cynllun.

Er bod Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i gyrraedd ei tharged plannu, nid oes unrhyw dystiolaeth a fyddai'n awgrymu bod y targed yn gyraeddadwy neu'n realistig, yn seiliedig ar berfformiad cyfredol. Nid yw'r "dyhead plannu newydd" o 2,000 hectar y flwyddyn yn ddigonol.

Mewn datganiad llafar i'r Cynulliad ym mis Ebrill, dywedodd Gweinidog yr Amgylchedd y byddai Strategaeth Coetir wedi'i hadnewyddu yn dod gerbron y Cynulliad cyn toriad yr haf.

Rydym yn nodi sefyllfa Llywodraeth Cymru mai "dyhead hirdymor yw hwn a fydd angen amser ar gyfer ystod o fesurau i wneud cynnydd yn hytrach na dilyniant blynyddol llinell syth". Rhaid i Lywodraeth Cymru ddarparu tystiolaeth o gynllun i gynyddu cyfraddau plannu.

Byddai cam cyntaf yn cynnwys darparu rhagor o wybodaeth am bob un o'r mesurau hyn, gan gynnwys beth ydynt, y plannu amcangyfrifedig a fydd yn deillio o bob un ohonynt, a'r amserlen ar gyfer pryd y bydd pob mesur yn cyflawni ei amcangyfrif plannu.

Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi yn flynyddol wybodaeth am gyfraddau plannu yng Nghymru a'r mathau o goed sy'n cael eu plannu.

Mae'r Pwyllgor yn ailddatgan ei gred, a geir yn ei adroddiad ar Goedwigaeth a Choetiroedd ("Heb gyrraedd gwreiddyn y mater", 2017), y dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i darged cenedlaethol o 20 y cant o orchudd canopi coed trefol. Yn ôl Llywodraeth Cymru, ar adeg ei hymateb i'r adroddiad hwnnw, roedd gorchudd canopi cyfartalog Cymru yn 16.3 y cant.

Amaethyddiaeth

Yn ei adroddiad "Dyfodol rheoli tir yng Nghymru" (2017), nododd y Pwyllgor weledigaeth ar gyfer cefnogi rheoli tir yn seiliedig ar ganlyniadau cynaliadwy. Dylai mesurau i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd fod yn ganolog i unrhyw ddull newydd o ddarparu cymorth. Derbyniodd Llywodraeth Cymru argymhelliad y Pwyllgor, a gafwyd yn yr adroddiad hwnnw, sef:

“Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod cyllid yn y dyfodol ar gyfer rheolwyr tir yn seiliedig ar gyflawni canlyniadau sy’n cyfrannu at y targedau uchelgeisiol ar gyfer ymaddasu i newid yn yr hinsawdd a’i liniaru fel y nodir yn neddfwriaeth Cymru megis Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015.”²²

Roedd gan y Pwyllgor ddiddordeb clywed am Fforwm Newid Hinsawdd y Diwydiant Amaeth a byddai’n croesawu rhagor o wybodaeth am ei weithrediad, gan gynnwys ei aelodaeth, ei gylch gorchwyl a manylion am ei gyfarfodydd.

Mae nifer ac amllder digwyddiadau llygredd amaethyddol yn achos pryder difrifol. Mae’r Pwyllgor yn falch bod Ysgrifennydd y Cabinet yn ceisio bwrw ymlaen â’r mater hwn fel mater o frys a byddai’n ddiolchgar o gael y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd hwnnw cyn gynted â phosibl. Dylai hyn gynnwys yr argymhellion a rannwyd gyda hi gan gynrychiolwyr o’r sector a gafodd y gwaith hwnnw i’w wneud.

Cynllunio

Roedd gan y Pwyllgor ddiddordeb clywed sylwadau’r swyddog a oedd gydag Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch y ffocws ar “wneud lle” yn yr ymgynghoriad diweddaraf ar ddogfen “Polisi Cynllunio Cymru” Llywodraeth Cymru. Yn benodol, byddai gan y Pwyllgor ddiddordeb clywed mwy am y cysyniad o “enillion amgylcheddol net” a sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â’r dull hwn.

Mae’r Pwyllgor yn croesawu’r sylw gan y swyddog a oedd gydag Ysgrifennydd y Cabinet nad oes bwriad i leihau’r amddiffyniad ar gyfer coetiroedd hynafol yng Nghymru drwy’r degfed argraffiad o Bolisi Cynllunio Cymru.

Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y mae’n bwriadu defnyddio’r syniad o orfodi cynllunio i fynd i’r afael â throedd amgylcheddol.

Argymhelliad 7. Cyfeiriodd Llywodraeth Cymru at “ystod o fesurau’ a fydd yn cyfrannu at gyflawni ei dyhead plannu hirdymor, ond y bydd angen amser arno i symud ymlaen. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu manylion am bob un o’r mesurau hyn, gan gynnwys beth ydynt, y plannu amcangyfrifedig a fydd yn deillio o bob un ohonynt, a’r amserlen ar gyfer pryd y bydd pob mesur yn cyflawni’r plannu amcangyfrifedig.

²² www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld10995/cr-ld10995-w.pdf

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i darged cenedlaethol o 20 y cant o orchudd canopi coed trefol.

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi yn flynyddol wybodaeth am gyfraddau plannu yng Nghymru a'r mathau o goed sy'n cael eu plannu.

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am Fforwm Newid Hinsawdd y Diwydiant Amaeth, gan gynnwys ei aelodaeth, ei gylch gorchwyl, a manylion am ei gyfarfodydd.

Argymhelliad 11. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ddiweddarau'r Pwyllgor cyn gynted â phosibl ar gynnydd wrth fynd i'r afael â nifer ac amlder digwyddiadau llygredd amaethyddol.

Argymhelliad 12. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am ymagwedd Llywodraeth Cymru tuag at gynllunio yng nghyd-destun y cysyniad o "enillion amgylcheddol net".

5. Trafnidiaeth

51. Yn 2014, roedd **trafnidiaeth yn cyfrif am 12.77** y cant o gyfanswm yr allyriadau yng Nghymru, a 21.67 y cant o'r allyriadau o fewn cymhwysedd datganoledig. Er gwaethaf y gwelliannau mewn effeithlonrwydd trafndiaeth, nid yw cyfanswm yr allyriadau yn y sector ond ychydig yn is yn 2014 nag yr oeddent yn 1990. Priodolir hyn i gynnydd yn y galw dros y cyfnod. O ran y targed o 3 y cant ar gyfer allyriadau datganoledig, cyrhaeddodd y rhain uchafbwynt yn 2007 ac maent wedi lleihau ers hynny. Mae'r naratif sy'n cyd-fynd â dyddiad allyriadau Llywodraeth Cymru yn nodi bod hyn oherwydd cynnydd yn effeithlonrwydd tanrwydd cerbydau, a'r newid o geir petrol i geir diesel. Roedd Strategaeth Newid Hinsawdd 2010 yn nodi nifer o feysydd i Lywodraeth Cymru weithredu arnynt:

- Datblygu'r Canolfannau Teithio Cynaliadwy;
- Cefnogi newid ymddygiad;
- Hyrwyddo eco-yrru;
- Hyrwyddo a chefnogi cerdded a beicio;
- Buddsoddi mewn gwasanaethau bws a thrên;
- Gwella'r rheolaeth o draffig ar y rhwydwaith ffyrdd strategol;
- Hyrwyddo'r seilwaith ar gyfer cerbydau trydan a hydrogen;
- Cefnogi'r diwydiant cludo nwyddau i leihau allyriadau; a
- Sicrhau bod penderfyniadau cynllunio defnydd tir yn seiliedig ar yr angen i leihau teithio.

52. Yn ei ail ddarn o gyngor, roedd argymhellion Pwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd a oedd yn ymwneud â thrafnidiaeth yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol - y potensial i ailgylchu refeniw o barthau aer glân i seilwaith beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus, yn cynnwys caffael bysiau sydd ag allyriadau isel iawn;
- Cefnogi'r nifer sy'n defnyddio cerbydau ag allyriadau isel iawn.

Dadansoddiad y Grŵp Cyfeirio Arbenigol²³

Mynegodd y Grŵp ei siom o ran y diffyg cynnydd yn annog Teithio Llesol a hwyluso newid moddol. Awgryma fod angen i Lywodraeth Cymru fyfyrion ar pam nad yw'r polisi presennol yn cyflawni, a sut y gellir cyflymu'r cynnydd yn y maes hwn.

Gofynnodd y Grŵp hefyd i ba raddau yr ystyriwyd y ffordd liniaru arfaethedig ar gyfer yr M4 wrth bennu targedau lleihau allyriadau o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru).

Tystiolaeth Llywodraeth Cymru

Teithio Llesol

53. Mae Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau wrthi'n gwneud **gwaith craffu ôl-ddeddfwriaethol** ar Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013. Dywedodd Iechyd Cyhoeddus Cymru fod teithio llesol yn un o'r dulliau mwyaf cynaliadwy o gynyddu gweithgarwch corfforol a gwella ansawdd aer drwy leihau teithiau mewn cerbydau ac allyriadau. Fodd bynnag, amlygodd nifer o'r cyfranwyr i waith y Pwyllgor, gan gynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru, bron i bum mlynedd ar ôl pasio'r Ddeddf, nad yw cyfraddau teithio llesol wedi newid ac mewn rhai sectorau maent wedi gostwng.

54. Roedd tystiolaeth ysgrifenedig Ysgrifennydd y Cabinet a'r Gweinidog yn dweud:

“Dyrannwyd cyllid Cyfalaf ychwanegol o £8 miliwn i gynlluniau Teithio Llesol ar gyfer 2017-18 a fydd yn rhoi hwb i gynlluniau sy'n bodoli eisoes a chyllido prosiectau ychwanegol ym mis Rhagfyr, 2017.

Dyrannwyd cyllid ar gyfer 2018-19 ar gyfer y tri grant a ddefnyddir gan Awdurdodau Lleol i roi gwelliannau ar waith: £5 miliwn ychwanegol yn benodol ar gyfer gwaith paratoi ar gynlluniau teithio llesol i ddatblygu cyfres o brosiectau posibl ar gyfer Teithio Llesol.”²⁴

55. O ran diffyg effaith bosibl y Ddeddf Teithio Llesol, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

²³ Sefydlwyd y Grŵp Cyfeirio Arbenigol gan y Pwyllgor yn 2017 i gefnogi'r gwaith o graffu ar bolisiâu sy'n ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd.

“I think there is a big piece of work, which obviously Ken would lead on, but I’m very happy to continue those discussions with him. But it’s very disappointing that, as you say, the Act’s been in place for about five years-. It’s one of those-. It’s a bit like the Future Generations Act, people give it huge plaudits, but you really need the evidence to show that it’s working to be able to accept those plaudits.”²⁵

56. Wrth gyfeirio at yr ymgynghoriad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru ar dagfeydd, gan gynnwys a ddylid caniatáu i gerbydau nwyddau trwm ddefnyddio lonydd bysiau mewn rhai amgylchiadau, cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet nad oedd wedi trafod y mater gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth. Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet nad oedd yn credu y byddai dull o’r fath yn annog beicio.

Ffordd liniaru’r M4

57. Roedd y dystiolaeth ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet a’r Gweinidog yn nodi bod cyfrifon carbon manwl wedi’u gwneud ar waith adeiladu a defnyddio ffordd liniaru’r M4 ac y byddai “allyriadau defnyddwyr ar rwydwaith De Cymru, er gwaethaf y cynnydd mewn traffig a ragwelir, mewn difrif yn lleihau ychydig o achos llwybr byrrach, mwy effeithlon traffig strategol”. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

“...the evidence has suggested that emissions will be reduced if we have the road, the new M4. Obviously, there’s a public inquiry going on at the moment. The inspectors are looking at the environmental statement, for instance. All the evidence will be given back to Ken Skates at the end of it and we’ll have a look at it. I think what’s more important from my portfolio’s point of view is what’s on those roads. So, I want to see more electric vehicles, more hydrogen cars – for me, that’s the important thing.”²⁶

58. Dywedodd swyddog a oedd gydag Ysgrifennydd y Cabinet fod swyddogion Llywodraeth Cymru yn yr adran drafndiaeth wedi cynnal asesiad carbon o’r prosiect. Roedd yr adroddiad yn cynnwys lliniaru arfaethedig o effeithiau negyddol:

²⁴

www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s73301/Papur%20gan%20y%20Lywodraeth%20Cymru.pdf

²⁵ <http://cofnod.cynulliad.cymru/Committee/4550>

²⁶ ibid

“for example new woodland planting of more than double the area taken and natural reed bed rainwater run-off filtration and attenuation ponds. The positive environmental impacts of the Scheme must also be borne in mind, for example significant improvements in air quality and noise, most notably in urban areas adjacent to the existing M4.”²⁷

59. Mewn perthynas â phrosiectau seilwaith mawr, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

“I think the important thing is, when you’re carbon budgeting-. You’re always going to have these large infrastructures. It’s about making sure that you do other things to ensure that the emissions-. You have got to live within your budget limits.”²⁸

Cerbydau trydan a hydrogen

60. Dywedodd y dystiolaeth ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet a’r Gweinidog fod nifer y cofrestrïadau ar gyfer ceir trydan a hybrid newydd yng Nghymru wedi cynyddu 35 y cant yn 2017 ac “mae cynlluniau yn cael eu datblygu ar gyfer rhwydwaith o bwyntiau cyhoeddus i wefru’r ceir ar hyd/ger ein rhwydwaith cefnffyrdd, gan ganolbwyntio ar ardaloedd lle mae’r farchnad yn annhebygol o lenwi’r bylchau”.²⁹

61. O ran y seilwaith gwefru ar gyfer cerbydau o’r fath, dywedodd y swyddog a oedd gydag Ysgrifennydd y Cabinet:

“We have introduced some standards in planning policy for charging on non-domestic planning applications. So, if you have a supermarket, we will be seeking charging points there. If you have a car park related to something else, we’ll be seeking charging points.”³⁰

Ein barn ni

Teithio llesol

Mae’r Pwyllgor yn pryderu ynghylch y diffyg cynnydd ers cyflwyno Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013. Rydym yn croesawu didwylledd Ysgrifennydd y Cabinet ar y

²⁷ <http://cofnod.cynulliad.cymru/Committee/4550>

²⁸ ibid

²⁹ www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s73301/Papur%20gan%20y%20Llywodraeth%20Cymru.pdf

³⁰ <http://cofnod.cynulliad.cymru/Committee/4550>

mater hwn, yn arbennig ei sylwadau ar yr angen i ddarparu tystiolaeth ar effaith y Ddeddf.

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod £8 miliwn o gyllid wedi'i ddyrannu yn 2017-18 ar gyfer teithio llesol a dyrannwyd £10 miliwn arall ar gyfer 2018-19 drwy dri grant a ddefnyddir gan Awdurdodau Lleol i roi gwelliannau teithio llesol ar waith.

Rydym yn cytuno â barn y Grŵp Cyfeirio Arbenigol bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru fyfyrion ar y rhesymau pam nad yw'r Ddeddf hon wedi cael yr effaith ddisgwyliedig eto. Mae symiau sylweddol o arian yn cael eu dyrannu i'r maes hwn a rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau gwerth am arian. Credwn y dylai Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth ystyried y mater hwn.

Ffordd liniaru'r M4

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar o gael asesiad carbon Llywodraeth Cymru o brosiect ffordd liniaru'r M4. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod yr asesiad yn cynnwys mesurau lliniaru. O gofio bod yr asesiad wedi cael ei baratoi gan swyddogion yn yr adran drafnidiaeth, byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar o gael rhagor o wybodaeth am sut yr oedd Ysgrifennydd y Cabinet a'i swyddogion yn ymwneud â'r gwaith o ddatblygu'r mesurau lliniaru hynny.

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar o weld y dystiolaeth neu'r modelu sy'n cefnogi sefyllfa Llywodraeth Cymru y bydd gwella llif y traffig yn lleihau allyriadau. Yn ei adroddiad ar waith craffu cyffredinol a chraffu ar gyllideb Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Chwefror 2018), roedd y Pwyllgor yn argymhell fel a ganlyn:

“Dylai Ysgrifennydd y Cabinet adrodd i'r Pwyllgor hwn o fewn y 6 mis nesaf gan nodi'n fanwl sut y bydd yr allyriadau carbon sy'n deillio o gynlluniau gwella priffyrdd yn gyffredinol, a'r A487, yr A470 a ffordd liniaru'r M4 yn arbennig, yn cael eu monitro yn y tymor canol i'r tymor hir ar ôl iddynt gael eu comisiynu.”³¹

Yn ei ymateb i'r adroddiad hwnnw, derbyniodd Ysgrifennydd Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth yr argymhelliad mewn egwyddor a dywedodd:

“Ers cyhoeddi'r fersiwn terfynol o WelTAG wedi'i ddiweddarau ym mis Rhagfyr 2017, mae Llywodraeth Cymru wedi adolygu'i dull ar gyfer monitro'r ymrwymadau a wneir mewn perthynas â pherfformiad cynlluniau seilwaith mawr ar ôl agor.

³¹ www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld11426/cr-ld11426-w.pdf

Bydd y dull sy'n cael ei ddatblygu yn gwella cwmpas y gwaith monitro a gwerthuso a wneir ar hyn o bryd ar ôl agor. Bydd y cwmpas newydd hwn yn sicrhau nid yn unig bod Carbon yn cael ei ystyried, ond bod perfformiad y cynllun yn erbyn yr amcanion gwreiddiol yn cael ei ystyried a'i werthuso hefyd; a bod yr un broses yn cael ei chynnal ar gyfer yr ymrwymadau a wneir yn y dogfennau cyhoeddus a lywiodd benderfyniad Ysgrifennydd y Cabinet.

Mewn perthynas â Charbon, mae'n debygol y bydd hyn yn golygu ailgynnal yr asesiad Ansawdd Aer ar gyfer Carbon Deuocsid a wnaed ar gyfer y cynllun pan roedd y dyluniadau'n cael eu penderfynu'n derfynol, ble bu cynnydd mewn traffig yn erbyn senario 'dim cynllun/gwneud dim'; a chymharu yn erbyn unrhyw amcanion cynllunio trafndiaeth perthnasol sydd wedi codi o'r broses WeITAG."³²

Cerbydau trydan a hydrogen

Mae'r gyllideb drafnidiaeth ddrafft yn cynnwys £1 miliwn ym mhob un o 2018-19 a 2019-20 (cyfanswm o £2 filiwn) ar gyfer pwyntiau gwefru trydan. Trafododd y Pwyllgor y dyraniad cyllideb hwn gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig ar 22 Tachwedd 2017. Dywedodd wrth y Pwyllgor fod trafodaethau gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth wedi bod yn mynd rhagddynt am y 18 mis diwethaf, gan ei bod yn credu ei bod ar ei hôl hi o ran gosod y pwyntiau gwefru.

Nid yw'r Pwyllgor wedi gweld tystiolaeth eto o ddull arfaethedig o gynyddu nifer y pwyntiau gwefru trydan. Yn ei adroddiad ar waith craffu cyffredinol a chraffu ar gyllideb Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Chwefror 2018), roedd y Pwyllgor yn argymhell fel a ganlyn:

“Dylai Ysgrifennydd y Cabinet adrodd i'r Pwyllgor hwn o fewn y 6 mis nesaf ar gynnydd yn ymwneud â dyrannu arian ar gyfer gosod manau gwefru trydanol.”³³

Yn ei ymateb i'r adroddiad hwnnw, derbyniodd Ysgrifennydd Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth yr argymhelliad ac ychwanegodd:

“Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol a chyrrff eraill i ddatblygu model fframwaith ar gyfer creu rhwydwaith cyhoeddus cenedlaethol o fannau gwefru trydanol, sy'n defnyddio'r £2 filiwn o gyllid cyhoeddus a

³² www.assembly.wales/laid%20documents/gen-ld11519/gen-ld11519-w.pdf

³³ www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld11426/cr-ld11426-w.pdf

roddwyd i'r diben hwn mewn ffordd sy'n sicrhau'r canlyniadau gorau posibl drwy ddenu buddsoddiadau cynaliadwy o du'r sector preifat."³⁴

Argymhelliad 13. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth adolygu Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor o fewn 6 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn. Dylai'r adolygiad gynnwys effaith y ddeddfwriaeth ar lefelau teithio llesol ac unrhyw wersi a ddysgwyd mewn perthynas â gweithredu'r ddeddfwriaeth.

Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru roi asesiadau carbon Llywodraeth Cymru o brosiect ffordd liniaru'r M4 i'r Pwyllgor ac unrhyw asesiadau carbon a wnaed ar gyfer cynlluniau gwella priffyrdd yr A487 a'r A470. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ddarparu rhagor o wybodaeth am y graddau y mae swyddogion yn ei hadran wedi bod yn gysylltiedig â datblygu mesurau lliniaru a geir yn yr asesiadau carbon hyn.

Argymhelliad 15. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu tystiolaeth neu fodelu sy'n cefnogi ei sefyllfa y bydd gwella llif y traffig yn lleihau allyriadau ac yn gwella ansawdd yr aer.

³⁴ www.assembly.wales/laid%20documents/gen-ld11519/gen-ld11519-w.pdf

6. Tai ac Adeiladau

62. Yn ei ail gyfran o gyngor i Lywodraeth Cymru, argymhellodd Pwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd:

- Dylid defnyddio safonau adeiladu i sicrhau safon uchel o effeithlonrwydd ynni mewn adeiladau newydd a'u bod yn cael eu dylunio ar gyfer systemau gwresogi carbon isel. Gan fod pwerau ar safonau adeiladu wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru, mae hwn yn faes lle gall Cymru chwarae rhan arweiniol;
- Mae ôl-osod mesurau effeithlonrwydd ynni a gwresogi carbon isel yn bwysig iawn i wella effeithlonrwydd ynni y stoc dai bresennol. Bydd hyn yn lleihau allyriadau, biliau ynni a lefelau tloedi tanwydd, yn ogystal â galluogi defnyddio systemau gwresogi carbon isel.

Dadansoddiad y Grŵp Cyfeirio Arbenigol³⁵

Mynegodd y Grŵp Cyfeirio Arbenigol bryder ynghylch y dull a gynigir gan Bwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd yn ei ail ddarn o gyngor i Lywodraeth Cymru. Amlinellodd aelodau'r grŵp:

- Fod y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BRE) a Defra yn parhau i weithio ar adeiladau waliau solet sy'n awgrymu nad yw'r camau insiwleiddio a gymerir yn cyflawni'r arbedion ynni disgwylidig. O'r herwydd, mae pryderon na fydd Cymru yn sicrhau'r arbedion allyriadau disgwylidig yn sgil insiwleiddio adeiladau waliau solet;
- Nid yw'r cyngor yn ystyried gwybodaeth o'r Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol, megis y twf a ragwelir mewn aelwydydd pobl sengl;
- Mae'r modelau a geir yn y cyngor i gyd yn tybio perfformiad uchel iawn ymyriadau arbed ynni;
- Mae angen i Gymru o leiaf haneru'r ynni a ddefnyddir mewn cartrefi. Mae angen i Weinidogion wrthsefyll y pwysau gan adeiladwyr tai i beidio â gorfodi safonau effeithlonrwydd ynni llymach; a

³⁵ Sefydlwyd y Grŵp Cyfeirio Arbenigol gan y Pwyllgor yn 2017 i gefnogi'r gwaith o graffu ar bolisiau sy'n ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd.

- Gallai Cymru gyflwyno'r gofyniad am dystysgrif effeithlonrwydd ynni gan landlordiaid sydd am rentu eu heiddo.

Roedd y Grŵp hefyd yn mynegi pryder, o ystyried yr angen i ganolbwyntio ar ôl-osod, y bu gostyngiad yn yr arian a ddyrannwyd i'r Rhaglen Arbed.

O ran rheoliadau adeiladu, mae'r Grŵp yn awgrymu nad yw'r rheoliadau adeiladu presennol yn gydnaws ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Roedd hefyd yn awgrymu y dylai Cymru anelu at safon "dim carbon yn cael ei ddefnyddio" o hyn ymlaen.

Tystiolaeth Llywodraeth Cymru

63. Mae'r dystiolaeth ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet a'r Gweinidog yn dweud bod grŵp llywio newydd yn cael ei sefydlu i ddeall yr her a chael consensws ynglŷn â datgarboneiddio'r stoc dai bresennol. O ran ôl-osod, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

"we plan, through our Warm Homes programmes, to address energy efficiency in 25,000 houses in this Government term. If I had the money, which I don't have, I would probably be able to do 10 times that number, and we still may not reach our target."³⁶

64. O ran adeiladau newydd ac arloesedd, roedd y dystiolaeth ysgrifenedig yn nodi fel a ganlyn:

"Mae ein stoc dai gyfredol yn her enfawr ond ni allwn anwybyddu'r cartrefi newydd sy'n cael eu hadeiladu. Nid ydym eisiau gorfod parhau i ailosod. Mae atal yn well nag ymaddasu. Felly, yn ogystal â chamau gweithredu ar gartrefi sy'n bodoli eisoes, mae gennym hefyd uchelgais i adeiladu 1,000 o fathau newydd o gartref ar draws Cymru drwy ein Rhaglen Dai Arloesol a ddechreuodd yn llwyddiannus iawn yn 2017-18. Dyma ran o'n targed o 20,000 o dai fforddiadwy yn ystod y tymor hwn o Lywodraeth. Mae'r Rhaglen yn ceisio profi modelau newydd a dysgu drwy wneud hynny, er mwyn inni wybod yn y dyfodol sut i adeiladu tai o ansawdd yn gyflym sydd hefyd yn ategu ein targedau a chanlyniadau ar gyfer datgarboneiddio."³⁷

³⁶ <http://cofnod.cynulliad.cymru/Committee/4550>

³⁷

www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s73301/Papur%20gan%20y%20Lywodraeth%20Cymru.pdf

65. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn cynnal astudiaeth gwmpasu ar adolygu Rhan L o'r rheoliadau adeiladu, sy'n pennu safonau ar gyfer perfformiad ynni adeiladau hen a newydd, ac mae'n anelu at ddechrau'r prif adolygiad cyn diwedd 2018. Mae'r dystiolaeth ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet a'r Gweinidog yn dweud y bydd yr adolygiad yn anelu at ddarparu Ynni Bron yn Sero (NZE) ar y lleiaf, a "rhagwelir y bydd y gofyniad i gyflawni Ynni Bron yn Sero yn golygu mireinio'r safonau presennol a dim mwy".³⁸

66. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod Llywodraeth Cymru wedi comisiynu arolwg tystiolaeth o amodau tai. Byddai canlyniadau'r arolwg yn cael eu defnyddio i ailasesu'r nifer sydd mewn tloidi tanwydd mewn gwirionedd.³⁹

67. Dywedodd y swyddog a oedd gydag Ysgrifennydd y Cabinet y byddai Llywodraeth Cymru yn sefydlu grŵp cyngori i edrych ar ôl-osod y stoc dai bresennol i wella effeithlonrwydd ynni. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai'r grŵp yn:

"taking a broader view, so not simply looking at it as a construction retrofit issue, but, as you said, the work that we might need to do with mortgage lenders and others in different financing options."⁴⁰

Ein barn ni

Ar adeg y sesiwn graffu gydag Ysgrifennydd y Cabinet a'r Gweinidog, roedd y Pwyllgor yn cynnal ymchwiliad i dai sy'n ddi-garbon. Cyhoeddir adroddiad yr ymchwiliad hwnnw yn ystod haf 2018 a bydd yn cynnwys argymhellion ehangach y Pwyllgor sy'n deillio o'r gwaith hwnnw.

Un o'r negeseuon allweddol y clywodd y Pwyllgor yn ystod ei ymchwiliad oedd, oherwydd natur y stoc dai yng Nghymru, rhaid i'r gwaith o ôl-osod y stoc dai bresennol fod yn flaenoriaeth. Ar y cyfraddau ôl-osod presennol, byddai'n cymryd degawdau i ôl-osod dim ond y tai a nodir fel y rhai sydd mewn tloidi tanwydd yng Nghymru.

Rhaid i Lywodraeth Cymru wneud mwy i gael buddsoddiad i gefnogi rhaglen helaeth o waith ôl-osod. Gallai hyn gynnwys trethi trafodiadau tir ac amodau sydd ynghlwm wrth grantiau tai. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o

³⁸

www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s73301/Papur%20gan%20y%20Lywodraeth%20Cymru.pdf

³⁹ <http://cofnod.cynulliad.cymru/Committee/4550>

⁴⁰ ibid

wybodaeth am y grŵp cyngori sy'n cael ei sefydlu gan Ysgrifennydd y Cabinet i ystyried materion o'r fath.

Mae'r Pwyllgor yn nodi sylwadau Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch yr arolwg tystiolaeth o amodau tai, a gaiff eu defnyddio i ailasesu nifer y tai sydd mewn tlodi tanwydd. Mae'r Pwyllgor yn gofyn am ragor o wybodaeth ynghylch y mater hwn cyn gynted a phosibl.

Mae'r Pwyllgor yn nodi'r oedi i'r adolygiad o Ran L a byddai'n croesawu cadarnhad gan Ysgrifennydd y Cabinet pryd y disgwylir i'r adolygiad gael ei gwblhau. At hynny, mae'r Pwyllgor yn gofyn am ragor o wybodaeth ynghylch y gwaith a wnaethpwyd eisoes gan Lywodraeth Cymru i nodi mai dim ond manwl gyweirio'r safonau adeiladu presennol sydd ei angen i sicrhau ynni bron yn sero.

Ar 23 Ebrill 2018, cyhoeddodd y Gweinidog Tai ac Adfywio adolygiad o gyflenwad tai fforddiadwy, i gynnwys gwerthusiad o effaith symud i ddarparu cartrefi di-garbon erbyn 2020. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn nodi, o gofio y disgwylir i'r grŵp gyflwyno adroddiad erbyn diwedd mis Ebrill 2019, na fydd hyn yn gadael llawer o amser i'r dadansoddiad gael ei ystyried a'i weithredu.

Argymhelliad 16. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet rannu rhagor o wybodaeth gyda'r Pwyllgor hwn am y grŵp cyngori y mae'n ei sefydlu i ystyried sut y gellir defnyddio ffynonellau cyllid a chefnogaeth amgen er mwyn hwyluso rhaglen helaeth o waith ôl-osod.

Argymhelliad 17. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet rannu rhagor o wybodaeth gyda'r Pwyllgor am yr arolwg tystiolaeth o amodau tai ac unrhyw gamau y mae'n bwriadu eu cymryd o ganlyniad i'r arolwg.

Argymhelliad 18. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet rannu rhagor o wybodaeth gyda'r Pwyllgor ynghylch pryd y disgwylir i'r adolygiad o Ran L gael ei gwblhau. At hynny, dylai Ysgrifennydd y Cabinet rannu gyda'r Pwyllgor y gwaith a wnaethpwyd eisoes gan Lywodraeth Cymru i nodi mai dim ond manwl gyweirio'r safonau adeiladu presennol sydd ei angen i sicrhau ynni bron yn sero.

Argymhelliad 19. Dylai Llywodraeth Cymru egluro'r amserlen ar gyfer ei hadolygiad o gyflenwad tai fforddiadwy. Yn benodol, dylai egluro sut y mae'n bwriadu gweithredu ar werthuso dadansoddiad o effaith symud i ddarparu cartrefi di-garbon erbyn 2020, o gofio y disgwylir i'r grŵp gyflwyno adroddiad erbyn diwedd mis Ebrill 2019.

Atodiad A – Aelodau'r Grŵp Cyfeirio Arbenigol

Aelod	Sefydliad
Keith Jones (Cadeirydd)	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Paul Allen	Canolfan y Dechnoleg Amgen
Mari Arthur	Cynnal Cymru
Martin Bishop	Confor
Steve Brooks	Sustrans
James Byrne	Cyswllt Amgylchedd Cymru
Haf Elgar	Cyfeillion y Ddaear Cymru
Yr Athro Stuart Irvine	Y Ganolfan Ymchwil i Ynni Solar, Prifysgol Abertawe
Yr Athro Nick Jenkins	Prifysgol Caerdydd
Chris Jofeh	Grŵp Carbon Isel/Di-garbon Cymru
Yr Athro Calvin Jones	Prifysgol Caerdydd
Shea Jones	Sefydliad Materion Cymreig
Yr Athro Ian Knight	Prifysgol Caerdydd
Jess McQuade	WWF Cymru
Sean O'Neill	Plant yng Nghymru
Yr Athro Nick Pidgeon	Prifysgol Caerdydd
David Reilly	Ymddiriedolaeth Carbon Cymru
Neville Rookes	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Yr Athro James Scourse	C3W
Jeremy Smith	Renewable UK Cymru
Emma Thomas	Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru
David Weatherall	Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni
Dr Lorraine Whitmarsh	Prifysgol Caerdydd
Matthew Williams	Ffederasiwn Busnesau Bach
Yr Athro Gareth Wyn-Jones	Prifysgol Bangor

Cynnwys

Argymhellion	5
1. Cyflwyniad	8
2. Cynnydd Llywodraeth Cymru ar y newid yn yr hinsawdd	11
3. Cynllun Masnachu Allyriadau yr UE	20
4. Rheoli tir	24
5. Trafnidiaeth	31
6. Tai ac Adeiladau	38
Atodiad A - Aelodau'r Grŵp Cyfeirio Arbenigol	42
